*Mae fersiwn Saesneg o'r ddogfen hon ar gael.*

# Gweithdrefn ar gyfer Apelio yn Erbyn Penderfyniad Asesu

## Rhesymeg

Mae asesu o fewn rhaglenni astudio'r Coleg yn digwydd ar ffurf asesiadau ffurfiannol a chrynodol, gyda'r dysgwr yn cymryd rhan lawn yn y broses asesu, e.e. drwy gynllunio asesiadau ac adolygiadau o berfformiad.

Rhaid derbyn y gall fod canfyddiadau gwahanol gan y dysgwr a'r Tiwtor/Aseswr ynghylch a yw tystiolaeth/gwaith y cytunwyd arno (y cytunwyd arno yn ystod camau cynllunio/adolygu asesiad) yn bodloni'r safonau.

Os bydd hyn yn digwydd, bydd gan y dysgwr yr hawl i apelio drwy system hygyrch ac agored. Mae'r weithdrefn apelio a nodir isod yn berthnasol i ddysgwyr sydd wedi'u cofrestru gyda'r Coleg ar gymhwyster.

**Ym mhob achos bydd y Coleg yn cyfeirio at y broses apelio ac yn ei dilyn fel y caiff ei nodi gan y Sefydliad Dyfarnu, Sefydliad Addysg Uwch neu'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd perthnasol.**

**Nodyn**
Rhaid i ddysgwyr AU ddilyn Gweithdrefn Apelio'r Sefydliad Addysg Uwch; yn yr achos hwn *ni wrandewir ar apeliadau tan ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau*. Ar gyfer dysgwyr AU, **ni ellir** cyflwyno apeliadau ar sail anghytundeb â beirniadaeth academaidd neu broffesiynol y bwrdd/tiwtor asesu.

## Gweithdrefnau ar gyfer Apelio yn erbyn Asesu

Bydd nodweddion strwythur apeliadau sy'n gysylltiedig â rhaglen astudio yn cynnwys:

- mynediad at adolygiad teg a thrylwyr o asesiad
- amseroedd ymateb clir a phrydlon
- camau sy'n rhoi cyfle i bob parti gyflwyno eu hachos
- canlyniadau clir
- adborth adeiladol
- system gofnodi ffurfiol

## Cam 1
## Tiwtor/Aseswr a Dysgwr

Pan fydd dysgwr yn anghytuno â'r penderfyniad asesu a roddwyd, rhaid iddo esbonio'r rheswm dros hyn i'r Tiwtor/Aseswr dan sylw cyn gynted â phosibl.  Yn y mwyafrif o amgylchiadau bydd hyn yn syth ar ôl derbyn y penderfyniad asesu.



| | |
|---|---|
| **Rhif Adolygiad:** | Adolygiad 6 |
| **Dyddiad Adolygu:** | 09/2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 09/2026 |

Rhaid i'r Tiwtor/Aseswr ystyried esboniad y dysgwr a rhoi ymateb drwy:

- esboniad/ailadroddiad clir (fel y bo'n briodol) o'r penderfyniad asesu yn dilyn ail-werthuso'r dystiolaeth/gwaith
- cwblhau'r Ffurflen Apêl Dysgwr. **(Atodiad I)**
- diwygio cofnod asesu'r dysgwr, os yw'n briodol

Os yw'r dysgwr yn cytuno â'r penderfyniad, yna nid oes angen i'r apêl fynd ymhellach.

Os nad yw'r dysgwr yn cytuno â'r penderfyniad, rhaid i'r apêl fynd ymlaen i Gam 2.

## Cam 2

Cyn pen 5 diwrnod o godi'r apêl, rhaid i'r Tiwtor/Aseswr dan sylw anfon y canlynol ymlaen at y Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol enwebedig

a) cofnod asesu gwreiddiol y dysgwr, ynghyd â'r dystiolaeth/gwaith
b) y Ffurflen Apêl Dysgwr wedi'i chwblhau

Rhaid i'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol (IQA) ailystyried y penderfyniad asesu.

Bydd hyn fel arfer yn cynnwys gwerthusiad o:

- dystiolaeth/gwaith y dysgwr a chofnodion cysylltiedig
- rhesymeg y Tiwtor/Aseswr dros y penderfyniad
- barn y dysgwr.

Wrth wneud hynny, rhaid i'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol lenwi ffurflen Ymateb yr IQA **(Atodiad 2)** a rhoi'r penderfyniad asesu wedi ei ailystyried i'r dysgwr cyn pen 10 diwrnod gwaith o dderbyn yr apêl.

Os nad yw'r dysgwr yn cytuno â'r penderfyniad asesu wedi ei ailystyried, bydd yr apêl yn mynd ymlaen i Gam 3.

## Cam 3
## Y Panel Apeliadau

Os nad yw'r dysgwr yn cytuno â'r penderfyniad a wnaed yng Ngham 2, bydd ganddo'r hawl i anfon ei achos at y Panel Apeliadau. Bydd y Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol dan sylw yng Ngham 2 yn anfon manylion perthnasol at y Pennaeth Cynorthwyol a/neu'r Pennaeth Ansawdd a dylai'r rhain gynnwys;

- Ffurflen Apêl Dysgwr **(Atodiad I)**

- Taflen(ni) Cofnod Asesu a thystiolaeth/gwaith y dysgwr a chofnodion cysylltiedig
- Ffurflen Ymateb yr IQA **(Atodiad 2)**

Rhaid i'r Pennaeth Cynorthwyol a/neu'r Pennaeth Ansawdd gynnull, cyn pen 10 diwrnod gwaith o Gam 2, panel sy'n cynnwys:

- Y Pennaeth Cynorthwyol neu'r Pennaeth Ansawdd
- Y Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol yng Ngham 2
- Y Dysgwr
- Y Tiwtor/Aseswr
- Ffrind neu gydweithiwr y Dysgwr, pe dymunir hyn.

Rhaid i'r panel apêl ddod i benderfyniad a hysbysu'r dysgwr o'r canlyniad yn ysgrifenedig cyn pen 5 diwrnod gwaith. Dylid cofnodi hyn drwy ddefnyddio ffurflen Canlyniad y Panel Apêl. **(Atodiad 3).**

Mae 2 ganlyniad posibl i'r panel apêl:

a) Os yw'r panel apêl yn cytuno â rheswm/rhesymau'r dysgwr dros apelio a bod yr apêl yn cael ei chadarnhau, yna mae gan y panel yr awdurdod i ddiystyru'r penderfyniad asesu a wnaed gan yr aseswr/tiwtor o blaid y dysgwr.

b) Os yw'r panel apêl yn anghytuno â rheswm/rhesymau'r dysgwr dros apelio ac os na chaiff yr apêl ei chadarnhau, bydd yr apêl yn symud ymlaen i'r cam nesaf; Cam 4 a'i hadolygu gan y Sefydliad Dyfarnu.

Bydd cofnodion o'r holl apeliadau yn cael eu cofnodi a'u darparu fel y bo'n briodol i'r:

- Y Pennaeth Cynorthwyol a/neu'r Pennaeth Ansawdd
- Pennaeth yr Adran
- Y Swyddog Arholiadau
- Y Sefydliad Dyfarnu/Sefydliad Partner AU

## Cam 4
## Apelio i'r Sefydliad Dyfarnu/Partner AU

Os yw'r dysgwr yn anghytuno â'r penderfyniad/au a wnaed gan y panel apêl, gall apelio i'r Sefydliad Dyfarnu. Dylid gwneud hyn yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, a fydd yn anfon yr apêl ymlaen cyn pen 2 ddiwrnod o'i derbyn.  Ar gyfer apeliadau AU, anfonir yr apêl i'r sefydliad Partner AU gan y Deon AU.

Os bydd y dysgwr yn penderfynu apelio i'r Sefydliad Dyfarnu neu'r Partner AU, cysylltir ag ef yn unol â'i Weithdrefnau Apelio priodol. Mae unrhyw benderfyniad a wneir gan y Sefydliad Dyfarnu/Partneriaid AU yn derfynol ac ni ellir eu dilyn ymhellach.

Bydd apeliadau a gyfeirir at Sefydliadau Dyfarnu neu Bartneriaid AU yn cael eu cofnodi gan y Swyddog Ansawdd gan ddefnyddio'r log yn **Atodiad 4.**

**Atodiad 1**
**Ffurflen Apêl Dysgwr** (i'w llenwi gan y Tiwtor/Aseswr)

| | |
|---|---|
| **Enw'r Dysgwr** | |
| **Enw'r Tiwtor/Aseswr** | |
| **Enw'r Swyddog Sicrhau Ansawdd Mewnol** | |
| **Dyddiad yr Asesiad** | |
| **Cydran / Uned / Modiwl** | |

| |
|---|
| **Sylwadau'r Tiwtor/Aseswr/ manylion asesiad:** |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

| | | |
|---|---|---|
| **Rheswm y dysgwr dros Apelio** | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| **Llofnod y Dysgwr:** | | **Dyddiad:** |
| **Llofnod y Tiwtor / Aseswr:** | | **Dyddiad:** |

| | | |
|---|---|---|
| | | |

| **Penderfyniad y Tiwtor/Aseswr** | |
|---|---|
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| | |
| **Dyddiad derbyn yr Apêl** | |
| **Dyddiad ymateb i'r apêl gychwynnol** | |
| **Enw'r aseswr (print)** | |
| **Llofnod yr Aseswr** | |

**DS: Tiwtor/Aseswr i'w chwblhau a dychwelyd i'r IQA cyn pen 5 diwrnod gwaith**

**Atodiad 2**

**Ffurflen Ymateb yr IQA**

| |
|---|
| **Dyddiad derbyn yr apêl:** |
| **Manylion yr apêl**<br>Rhowch fanylion unedau penodol a/neu ddarnau o waith/tystiolaeth wedi eu hasesu a adolygwyd: |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| **Penderfyniad yr IQA**<br>Nodwch a ydych yn cytuno â'r aseswr/tiwtor neu'r dysgwr: |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| **Rheswm dros benderfyniad yr IQA:** |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |

**Llofnod yr IQA:** **Dyddiad:**



| | |
|---|---|
| **Rhif Adolygiad:** | Adolygiad 6 |
| **Dyddiad Adolygu:** | 09/2024 |
| **Dyddiad Adolygu Nesaf:** | 09/2026 |

**DS: IQA i ddychwelyd at y dysgwr neu'r panel apêl cyn pen 10 diwrnod gwaith o dderbyn yr apêl**

**Atodiad 3**
**Ffurflen Canlyniad y Panel Apeliadau**

| |
|---|
| **Enwau mynychwyr y panel:** |
| **Sylwadau:** |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| |
| **Penderfyniad y panel:** |
| |
| |
| |
| |
| |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad derbyn yr Apêl** | |
| **Dyddiad yr ateb** | |
| **Cyfarwyddwr Cyswllt Ansawdd (print)** | |
| **Llofnod y Cyfarwyddwr Cyswllt Ansawdd** | |
| **Wedi'i nodi yn y Log Apeliadau** | Do / Naddo |

**DS: Pennaeth Cynorthwyol a/neu'r Pennaeth Ansawdd i ddychwelyd at y dysgwr cyn pen 5 diwrnod gwaith o'r panel apêl.**

**Atodiad 4**
**Log Apeliadau'r Sefydliad Dyfarnu/Partner AU**

| **Rhowch fanylion y Sefydliad Dyfarnu/Partner AU** | |
|---|---|
| **Enw'r Sefydliad Dyfarnu/Partner AU** | |
| **Dyddiad Hysbysu'r Sefydliad Dyfarnu/Partner AU am yr Apêl** | |
| **Dyddiad yr Ateb** | |
| **Canlyniad yr apêl** | |

Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cymeradwyo: Medi 2024** | **Rheolwr sy'n Gyfrifol:** Pennaeth Cynorthwyol Ansawdd, Addysgu a Dysgu |
| **Cymeradwywyd gan:** Bwrdd Safonau Ansawdd | **Arweinydd Gweithredol:** |
| **Dyddiad adolygu: Medi 2026** | **Hygyrch i Fyfyrwyr:** Ydy |